Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol a gynhaliwyd nos Wener y 28ain o Hydref 2022 am 5.30 yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon

Yn Bresennol:

Goronwy Wynne (Llywydd), Iona Evans (Cadeirydd y Gymdeithas), Hywel Madog Jones (Is-gadeirydd), Margaret Roberts (Trysorydd), Gareth W Jones (Ysgrifennydd), Catrin Evans, Enid Jones, Jean Evans, M Liz Evans, Wesley Evans, Ann Jones, Margiad Jones, Barbara Gillespie, Bernard Gillespie, Helen Griffith, John Griffith, Rhisiart ap Gwilym, Anne Gwynne, Nerys Horan, Carys M Parry, John M Parry, Tudur Pritchard, Elizabeth Roberts, Amanda Skull, Will Tyler, Jennifer Thomas, Carwen Vaughan, Jackie James, Alan Williams, Alwena M Williams, Dafydd Williams a Jackie Willmington (Ysgrifennydd Cofnodion) (32)

1. GAIR O GROESO GAN Y CADEIRYDD

Estynnodd Iona Evans groeso cynnes i bawb ac yn enwedig i aelodau a oedd yn mynychu Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas am y tro cyntaf. Ychwanegodd ei bod yn falch o allu cynnal y cyfarfod wyneb yn wyneb ar ôl cyfnod estynedig.

2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Duncan Brown, Eirian Davies, Rob Evans (Ysgrifennydd Aelodaeth), Dafydd Lewis, Haf Meredydd, Diane Norrell, Iona Price a Gwyn Roberts.

3. DERBYN COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL 2019

Cynigiodd Hywel Madog Jones ac eiliodd Carys Meurig Parry dderbyn cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar y 15fed o Hydref 2021 yn gofnod cywir. Cytunwyd drwy ddangos dwylo.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

Eitem 5 Adroddwyd bod aelodau wedi ymateb i awgrymiad Goronwy Wynne a chymryd rhan yn "New Year Plant Hunt" y Botanical Society of Britain and Ireland. Cofnodwyd planhigion yn eu blodau dros y Calan gan grŵp dan arweinyddiaeth Iwan Roberts yn ardal Rhuthun a Richard a Bethan Hartnup yn ardal Aberystwyth. Llongyfarchwyd hwy gan Goronwy Wynne. Tynnodd Iona Evans sylw bod y tri rhanbarth yn bwriadu trefnu teithiau i gofnodi "Blodau Calan" yn ystod dyddiau cynnar 2023.

5. ETHOL LLYWYDD

Cynigiodd Dafydd Williams ac eiliodd Elizabeth Roberts i ailethol Dr. Goronwy Wynne yn Llywydd y Gymdeithas. Cytunwyd drwy ddangos dwylo.

Cymerodd Dr Wynne y Gadair.

Mynegodd y Llywydd ei ddiolch i'r aelodau am eu croeso ac am ymddiried ynddo i lywio'r Gymdeithas am flwyddyn arall. Diolchodd i'r rhai a drefnodd y Gynhadledd.

6. ETHOL IS-LYWYDD

Dywedwyd bod Duncan Brown yn fodlon gwasanaethu eto ac esboniwyd bod y Pwyllgor Gwaith wedi enwebu Twm Elias i fod yn Is-lywydd anrhydeddus ychwanegol [Gweler cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2018 eitem 5 "Ystyried Dyfodol Swydd yr Is-lywydd". J.W] Gwahoddodd y Llywydd sylwadau. Nid oedd ymateb ac etholwyd y ddau drwy ddangos dwylo.

7. AELODAETH Y PWYLLGOR GWAITH: ETHOL SWYDDOGION

i. Cadeirydd: Esboniwyd bod Iona Evans yn fodlon gwasanaethu am flwyddyn arall ar ôl ymdrech aflwyddiannus i gael olynydd. Fe'i hail-etholwyd drwy ddangos dwylo.

Diolchodd y .Llywydd iddi am gynrychioli'r Gymdeithas yn gyhoeddus ac am ei gwaith y tu ôl i'r llenni.

ii. Is-gadeirydd: Dywedwyd bod Hywel Madog Jones yn fodlon parhau i wasanaethu. Tynnwyd sylw ei fod yn cadeirio'r Pwyllgor Marchnata a gweithio i ddatblygu presenoldeb digidol y Gymdeithas yn ogystal â threfnu gweithgareddau rhanbarth Gwynedd a Môn. Fe'i hail-etholwyd drwy ddangos dwylo.

Ar ôl i'r Llywydd wahodd cwestiynau, ail-etholwyd y canlynol drwy ddangos dwylo:-

iii. Trysorydd: Margaret Roberts.

iv. Ysgrifennydd: Gareth Wyn Jones.

v. Ysgrifennydd Aelodaeth: Rob Evans

vi. Ysgrifennydd Cofnodion: Jackie Willmington

8. ETHOL SWYDDOGION ERAILL

Trefnyddion Gweithgareddau

Ail-etholwyd y canlynol drwy ddangos dwylo:-

i. Gogledd Ddwyrain: Iwan Roberts.

ii. De a'r Canolbarth: Eirian Davies.

iii. Trefnydd y Gynhadledd Flynyddol: Elizabeth Roberts.

Diolchodd y Cadeirydd i Iwan Roberts ac Eirian Davies gan dynnu sylw eu bod wedi trefnu gweithgareddau dros nifer o flynyddoedd. Diolchodd hefyd i Elizabeth Roberts am ymgymryd â'r gwaith anodd ond yn hanfodol o drefnu'r Gynhadledd.

iv. Gogledd Orllewin: Esboniodd y Cadeirydd bod yr Is-gadeirydd wedi bod yn trefnu gweithgareddau yn y Gogledd-orllewin dros dro. Dywedodd nad oedd gwirfoddolwr i ymgymryd â'r swydd o Drefnydd ond ei bod yn falch o allu cyhoeddi bod John Griffith a Haf Meredydd yn fodlon cydweithio gyda Hywel Madog Jones er mwyn ysgafnhau'r baich arno.

9. GOLYGYDDION

Ail-etholwyd y canlynol drwy ddangos dwylo:-

i) Y Naturiaethwr: Dafydd Lewis

Ii Y Cylchlythyr Gwyn Roberts

Mynegodd y Llywydd ei werthfawrogiad o waith caled Dafydd Lewis yn golygu'r Naturiaethwr a galwodd ar yr aelodau i'w gefnogi drwy gyfrannu erthyglau.

Canmolodd newidiadau diweddar yn y Cylchlythyr gan dynnu sylw at erthyglau'n edrych yn ôl ac ymlaen.

10. **CYNRYCHIOLWYR IS-BWYLLGORAU**

Llên Natur a'r Panel Enwau: ail-etholwyd Duncan Brown drwy ddangos dwylo.

Diolchodd y Llywydd i Duncan Brown am ei waith ar brosiect Llên Natur.

11. AELODAU ERAILL O'R PWYLLGOR GWAITH

Cyhoeddwyd bod Philip Williams a Tudur Pritchard yn dymuno ymddiswyddo o'r Pwyllgor Gwaith.

Ail-etholwyd y canlynol drwy ddangos dwylo:-

John Griffith
Dominig Kervegant (cyfetholwyd gan y Pwyllgor Gwaith
Haf Meredydd
Carys Meurig Parry (hefyd yn Drefnydd Gwyliau)
Alan Williams

Dywedodd y Cadeirydd y derbyniwyd enwebiad i

Rhisiart ap Gwilym

Fe'i hetholwyd drwy ddangos dwylo.

Tynnwyd sylw y byddai Cyfansoddiad y Gymdeithas yn caniatáu hyd at ddau aelod ychwanegol ar y Pwyllgor Gwaith. Ni chafwyd enwebiad a gofynnodd y Llywydd i aelodau gysylltu â'r Cadeirydd petai enw'n dod i'r meddwl yn nes ymlaen. Tynnodd yr Is-gadeirydd sylw bod diffyg cynrychiolwyr o'r de.

12. ADRODDIAD Y TRYSORYDD

Cyflwynodd Margaret Roberts y fantolen am flwyddyn ariannol y Gymdeithas 2021-2022. Tynnodd sylw bod y daith i'r Arfordir Jwrasig yn ymddangos ar ddwy ochr y fantolen ac nad oedd cost net i'r Gymdeithas.

Dangoswyd incwm o £19,337 gan gynnwys £12,780 o'r tâl aelodaeth, £181 o werthu llyfrau ac eitemau eraill a £50 o log banc. Esboniwyd nad oedd llawer o ddefnydd o gyfrif banc Llên Natur ac felly fe'i caewyd gan ddychwelyd £770 at brif gyfrif y Gymdeithas.

Adroddwyd £21,948 o wariant. Tynnwyd sylw at yr eitemau mwyaf sylweddol:- argraffu cylchgronau (£5,591), eu dosbarthu (£2,472), costau'r Eisteddfod (£4,522), costau Technoleg Gwybodaeth (£926), costau banc (£901), yswiriant (£432), llogi'r storfa a gwobr i ddysgwr am erthygl i'r Naturiaethwr (£150).

Esboniodd yr Is-gadeirydd i'r Gymdeithas wario tua £2,500 ar baneli arddangos cyn Eisteddfod Sir Ceredigion a fydd yn arbed costau yn y dyfodol gan na fyddai angen talu cwmni proffesiynol i'w trin.

Gofynnodd Rhisiart ap Gwilym ynglŷn â chostau Technoleg Gwybodaeth. Esboniwyd bod y rhan fwyaf o'r costau yn gysylltiedig â chynnal a datblygu gwefan Llên Natur.

Diolchodd y Llywydd i'r Trysorydd am ei gwaith.

13. DERBYN Y FANTOLEN ARIANNOL A PHENODI'R TÂL AELODAETH

Cynigiodd Dafydd Williams ac eiliodd Elizabeth Roberts dderbyn y fantolen. Cytunwyd yn ddiwrthwynebiad.

Derbyniwyd argymhelliad y Pwyllgor Gwaith i beidio â newid y Tâl Aelodaeth ym mis Gorffennol 2023.

14. PENODI ARCHWILYDD ALLANOL Cynigiwyd caniatáu i'r Trysorydd benodi archwilydd allanol yn ôl y drefn arferol a chytunwyd drwy ddangos dwylo.

15. ADRODDIAD Y PWYLLGOR GWAITH

Dywedodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor Gwaith gwrdd yn rhithiol ym mis Tachwedd a mis Chwefror ac yn wyneb i wyneb ym mis Mai a mis Awst ac felly byddai'r patrwm yn y dyfodol. Nododd fod gallu cynnal cyfarfod rhithiol ar fyr rybudd wedi bod yn ddefnyddiol, er enghraifft wrth drafod trefniadau ar gyfer yr Eisteddfod.

Diolchodd i'r rhai a baratôdd posteri i'r Eisteddfod gan gynnwys Jackie Willmington, Dominig Kervegant a Richard a Bethan Hartnup. Diolchodd hefyd i Eirian Davies am drefnu'r rota ac i'r holl wirfoddolwyr. Adroddodd fod 33 o bobl wedi ymaelodi yn ystod yr wythnos.

Tynnodd sylw fod y Gymdeithas wedi lansio'r llyfr "Parchedig yr Adar" yn yr Eisteddfod yn ogystal â chymryd rhan yn lansiad llyfr Brynley Roberts am Edward Llwyd.

Diolchodd y Cadeirydd i Olygyddion a Chyfranwyr at y Cylchlythyr a'r Naturiaethwr gan nodi inni weld rhifynnau swmpus eleni. Tynnwyd sylw bod Dafydd Lewis yn apelio am erthyglau i'r rhifyn nesaf erbyn 1af Ionawr.

Dywedodd fod grŵp wedi mwynhau gwyliau ardderchog ar yr Arfordir Jwrasig. Diolchodd i Carys Meurig Parry am ei gwaith trefnu gan dynnu sylw at wyliau 2023 yng Ngogledd Iwerddon. Diolchodd hefyd i John Griffith am drefnu taith yn yr Hen Ogledd.

Dywedodd ei bod yn falch o weld nifer galonogol o aelodau yn cerdded. Nododd ei bod yn braf gweld aelodau nad ydynt yn ymuno â theithiau cerdded yn dangos diddordeb mewn gweld hanes y gweithgareddau ar dudalen Weplyfr y Cymdeithas.

Diolchodd i Duncan Brown a Dominig Kervegant am eu gwaith diflino ar Brosiect Llên Natur gan nodi bod y nifer o ddilynwyr o Gymuned Llên Natur ar Weplyfr wedi cyrraedd 5.4 mil.

Croesawodd yr ap a ddatblygwyd gan Rhisiart ap Gwilym i ddangos teithiau'r Gymdeithas ar ffonau symudol.

Diolchodd i Elizabeth Roberts am drefnu'r Gynhadledd, i Gareth Wyn Jones am gysylltu â'r siaradwyr ac i Hywel Madog Jones am newid y trefniadau ar fyr rybudd er mwyn datrys problem annisgwyl.

Diolchodd i holl aelodau'r Pwyllgor Gwaith am gyd-dynnu gan nodi ei bod yn gyfnod i beri pryder oherwydd newid hinsawdd, ffliw adar a diffyg parch at fyd natur.

Gorffennodd y Cadeirydd drwy ddiolch i bawb am fynychu'r cyfarfod.

16. UNRHYW FATER ARALL

Diolchodd yr Is-gadeirydd i John Griffith am ei waith i sicrhau bod yr ap "Pl@ntNet".yn cynnig fersiwn Cymraeg. Dywedodd y Llywydd ei fod yn falch o weld y Gymdeithas yn actif yn y maes technoleg ddigidol.

17. Y CYFARFOD BLYNYDDOL NESAF

Dywedodd Elizabeth Roberts y byddai manylion y gynhadledd nesaf yng Nghylchlythyr y gwanwyn. Esboniodd ei bod yn ymchwilio sawl leoliad gan gynnwys Gwbert, Llandrindod a Caerfyrddin a rhybuddiodd fod prisiau wedi codi, yn enwedig costau llogi ystafelloedd cyfarfod.

Dywedodd y Llywydd bod y Pwyllgor Gwaith yn dymuno gwybod a fyddai'r aelodau'n dal i werthfawrogi cwrdd am benwythnos. Gofynnodd am sylwadau gan dynnu sylw bod yr aelodau a oedd yn bresennol wedi "pleidleisio gyda'u traed". Ychwanegodd y Cadeirydd y gellid ystyried cynlluniau amgen, er enghraifft cyfarfod un diwrnod. Dywedodd un aelod bod yn well ganddi gynhadledd penwythnos a mynegwyd cefnogaeth gan aelodau eraill. Dywedodd y Llywydd y byddai'r Pwyllgor Gwaith yn trafod y mater yn eu cyfarfod ym mis Tachwedd ac y byddent y croesawi sylwadau eraill.